

Mythau Ynghylch Mathemateg

Mae nifer ohonom yn cael trafferth wrth ddefnyddio rhifau, ond gall pob un ohonom wella.

Gadewch i ni chwalu rhai mythau am fathemateg fel y gallwch ddechrau bwrw ymlaen â rhifau.



Myth 1

Ni allaf wneud mathemateg am nad ydw i'n ei defnyddio yn fy ngwaith na'm bywyd.

Anghywir

Mae pob un ohonom yn defnyddio mathemateg bob dydd: cynllunio teithiau, siopa, coginio, gwneud tasgau o amgylch y tŷ. Mae pob un ohonynt yn golygu gweithio gyda rhifau.



Myth 4

Mae'n anarferol teimlo'n bryderus ynghylch mathemateg.

Anghywir

Mae pryder ynghylch mathemateg yn gyffredin: mae llawer o bobl yn teimlo'n bryderus, yn nerfus neu o dan straen wrth ymdrin â rhifau. Ond GELLIR goresgyn hyn.



Myth 2

Mae dysgu mathemateg fel oedolyn yn union fel mynd yn ôl i'r ysgol.

Anghywir

'Nawr ein bod yn oedolion, gallwn ddewis beth a sut yr ydym yn ei ddysgu, boed hynny mewn coleg, neu ar-lein gartref neu ar eich ffôn.



Myth 5

Ni fydd rhai pobl yn gwella, ni waeth sawl gwaith y byddant yn rhoi cynnig arni.

Anghywir

Nid yw gallu yn sefydlog. Gydag ychydig o ymdrech gall pob un ohonom wella ein mathemateg.



Myth 3

Mae rhai pobl yn bobl mathemateg naturiol; nid yw eraill.

Anghywir

Mae gallu o ran mathemateg yn cael ei ddiffinio gan ein profiadau, nid ein genynnau. Mae mathemateg yn sgil y gall pob un ohonom ei ymarfer a'i wella. Mae gwneud camgymeriadau yn rhan o wella.

Cymerwch y cam cyntaf trwy glicio

www.nationalnumeracy.org.uk/challenge/sfpag

Gallwch drechu diffyg hyder yn eich sgiliau rhifedd.

Cymerwch y cam cyntaf yn:

